
Owl
at
Home

Theatr Iolo








*"First class theatre... stripped bare of pretension.*
*If only grown-up theatre were as good"* Western Mail

*"Children's theatre doesn't come any better"* British Theatre Guide

Gweledigaeth Theatr Iolo ydi cymdeithas lle mae pob plentyn yn gallu teimlo'i fod wedi'i ymrymuso a'i ysbrydoli.

A ninnau'n un o gwmnïau theatr blant blaenllaw Cymru, gwnawn ein gorau glas i gyfoethogi bywydau plant drwy brofiadau cofiadwy sy'n herio'r meddwl ac yn cyffroi'r dychymyg. Mae Theatr Iolo ar flaen y gad ym maes theatr i blant ers dros ddeng mlynedd ar hugain, yn cyflenwi perfformiadau a gweithdai i fabis, plant, glasoed, rhieni, disgyblion ac athrawon ledled Cymru, gwledydd Prydain a gwledydd eraill y byd yn y Gymraeg ac yn Saesneg ill dwy.

Dan arweiniad artistig y cyfarwyddwr arobryn, Lee Lyford, mae gennym lond gwlad o gynlluniau cyffrous at y tair blynedd nesaf a'r tu hwnt. Bwriwch olwg ar ein gwefan theatriolo.com ac ymuno â'n e-restr i gadw mewn cysylltiad a chael gwybod rhagor am ein prosiectau a'n cynyrchiadau i ddod.

















**d/o Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE 029 20613782**
**hello@theatriolo.com | theatriolo.com | @theatriolo**

Mae Theatr Iolo yn cael grant refeniw blynyddol gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi prif gorff ein gwaith a chyllid y Loteri Genedlaethol at brosiectau dros ben. Rydym yn elusen gofrestredig ac yn dibynnu ar gefnogaeth unigolion, cwmnïau, ymddiriedolaethau a sefydliadau a chymorthdal cyhoeddus i ddal i gyflwyno'r theatr gyda'r orau i blant, pobol ifanc ac oedolion.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government




**Theatr Iolo yn cyflwyno**

# Owl at Home

**Wedi'i seilio ar y llyfr â darluniau i blant gan Arnold Lobel**
**Addaswyd i'r llwyfan gan Rina Vergano a Theatr Iolo.**

Mae Owl yn byw ar ei ben ei hun mewn cartre bach clyd yn y coed. Heb neb i sgwrsio â nhw, mae Owl yn canu iddo'i hun ac yn chwilio am ffyrdd o basio'r amser. Mae'n pendroni gryn dipyn ynghylch pethau. Tybed be ddigwydd os gwahodda'r gaea dan ei gronglwyd? A thybed oes modd iddo fod mewn dau le ar unwaith?

A'i ddychmyg yn mynd yn rhemp, mae pethau cyffredin yn dechrau magu eu bywyd eu hunain ac Owl yn cael ffrind annisgwyl sy'n fodlon ei ddilyn i ben draw'r byd... o'i fodd neu'i anfodd!

Stori swynol gyda cherddoriaeth ydi Owl at Home sy'n dangos i ni sut mae cyfeillgarwch i'w gael yn y llefydd mwyaf annhebygol.

Hwyrach bod gan Owl gymhares unwaith ac wedi ei cholli, ond hwyrach nad felly y bu. Am y tro, mae'n byw ar ei ben ei hun ac felly mae hi ers peth amser. Does dim newid arno bellach, yn greadur deddfol iawn sy'n hoffi cerdded y rhych. Mae Owl yn poenydio ynghylch pethau ac yn meddwl y byd o'r pethau cyfarwydd yn ei gartre, fel petaen nhw'n ffrindiau.

Mae Owl yn ei chael hi'n anodd gwisgo amdano ac yn aml mae'n bwrw dyddiau bwy'i gilydd yn ei byjamas. Mae i'w weld yn fodlon ei fyd yn piltran yn ei dŷ, ar ei ben ei hun, cyn belled na does dim yn mynd o chwith. Ond weithiau mae pethau'n mynd o chwith ac Owl yn rhoi pob ewin ar waith i adfer trefn.

Mae Owl yn pendroni gryn dipyn ynghylch pethau, mae'n bur ddywedwst, ond mae'n dueddol o lafarganu neu ganu ei feddyliau'n uchel. Mae Owl yn gwrando ar Radio Gwdihŵ (gorsaf radio boblogaidd i gwdihŵs) ac mae'n hoffi llyfrau.Mae'n wyliwr adar brwd ac yn hoffi nodi'r adar mae'n eu gweld a'r galwadau adar mae'n eu clywed.

## Cast a Chreadigolion

Actor: George Williams
Cyfarwyddwr: Lee Lyford
Awdur: Rina Vergano
Dylunydd: Anisha Fields
Dylunydd Sain: Dinah Mullen
Sgrifennwyd y caneuon gan George Williams

Dylunydd Goleuo: Ceri James
Rheolwr Cynhyrchu: Nick Allsop
Disgrifiwr Sain: Michelle Perez
Radio Gwdihŵ: Lynne Seymour
Gwneuthurwr Celfi: Charlotte Neville
Adeiladwyr y Set: Dogfish

**Diolch yn Arbennig i Theatre Orchard, Chapter a Jenny Foster**

# Lluniau'r Ymarferion












Lluniau gan Kirsten McTernan

# Lluniau Cynhyrchu















Lluniau gan Kirsten McTernan

## Rhagarweiniad Disgrifiad Sain




https://soundcloud.com/speakaudio/owl-at-home-audio-description

## Cyfres Straeon Amser Gwely Owl at Home




https://youtu.be/YYo9Gr3ftjA

## Rhagflas Owl at Home




Owl at Home Trailer 2023

https://youtu.be/sq4RodxaIxw?si=cCvi-EyLkGAfLVxz



Lee Lyford - Cyfarwyddwr

# Nodiadau'r Cyfarwyddwr

Rwyf bob amser yn cael fy nenu at straeon sy'n chwilio sut be ydi bod yn ddynol ac sy'n gofyn cwestiynau mawr fel:Pam rydyn ni yma? Pwy ydw i? A be ydi fy mherthynas i â'r byd? Cwestiynau mae plant yn eu gofyn yn aml rywfodd neu'i gilydd.

Wyddwn i ddim am y llyfr Owl at Home nes i Rina a George ddod ag ef i mi tua'r adeg y cymerais yr awenau yn Gyfarwyddwr Artistig Theatr Iolo. Fe'm trawodd i gan ei fod mor ddwfn ac eto mor syml. Yn aml mae llenyddiaeth fawr i blant, o fewn ychydig linellau, yn mynd i graidd pethau sy'n gofyn penodau diddiwedd mewn llyfrau "oedolion".Teimlwn fod gan Owl a minnau gryn dipyn o bethau ar y cyd: yn aml mae manylion bychain bach yn mynd yn chwilen yn fy mhen i, gas gen i adael fy nghartre ac rwy'n crio ar yr esgus lleiaf! Pan on i'n blentyn doedd gen i fawr i'w ddweud wrth yr awyr agored, roeddwn i'n fodlon fy myd yn dawnsio o gwmpas y tŷ, yn darllen llyfr neu'n rhoi trefn ar fy llofft. Dim ond yn ddiweddarach ar f'oes y sylweddolais lawenydd yr awyr agored a chysylltu â natur. Felly teimlwn yn y fan, petawn i wedi dod ar draws y llyfr yma pan on i'n blentyn, y buasai i'r dim i mi.

Gawson ni hwyl fawr yn llwyfannu'r ymdrechion corfforol ac athronyddol sy'n mynd â bryd Owl yn y sioe. Be aeth â llawer o'n proses ymarfer oedd datblygu iaith gorfforol/ weledol i ddarlunio'r straeon yma gan ddefnyddio cyn lleied o iaith ag oedd modd.

Mae Rina wedi cael andros o hwyl ar ddod â hanesion unigol Owl at ei gilydd i wneud un stori gyfan ac rydym wedi gwneud ein gorau i ymorol mai'r haenau o ystyr yn llyfr gwych Arnold Lobel ydi sail popeth.
Gobeithio y mwynhewch chi'r sioe.

# Nodiadau'r Awdur



Rina Vergano -Awdur

Cafodd fy mhlant ill tri eu magu ar straeon Arnold Lobel: Frog & Toad, Mousetales ac Owl at Home. I ddarllenwyr bore oes maen nhw wedi'u llunio, felly er bod yr iaith yn syml mae rhai o'r cysyniadau'n gymhleth. Gwaith athronyddol twyllodrus o syml ydi Owl at Home, i'r plentyn meddylgar. Mae plant i gyd yn athronwyr bach sy'n pendroni ynghylch pethau ac yn gofyn cwestiynau mawr dirfodol er mwyn cael pen llinyn ar y byd o'u cwmpas: be ydw i'n dda yma? pam mae hyn yn digwydd y ffordd hyn? pam na alla i fod mewn dau le ar unwaith? pam mae gen i'r holl deimadau yma? Pam mae'r lleuad mor loyw liw nos? Cysgod bwganllyd ydi hwnna yn fy llofft i, 'te dim ond fy ngŵn llofft?

Am wn i fy mod i'n cael fy nenu at Owl oherwydd fy nghariad a'm parch at y ffordd mae plant yn meddwl. Yn y stafell ddosbarth mae plant yn aml yn cael eu stwffio'n llawn gwybodaeth, ond mewn gwirionedd maen nhw eisoes yn llawn syniadau, dychymyg a chysyniadau. Mae plant yn feddylwyr haniaethol tan gamp ac mae'r straeon bach yma'n cydnabod y ffaith yna go iawn ac yn mynd yn syth ar ôl ymgysylltu â'r rhan honno o'u meddyliau. Ac, a dweud y gwir, eu heneidiau: mae'r rhain yn straeon eneidfawr iawn! Mae llawer o lyfrau i ddarllenwyr bore oes heb fawr o gynnwys na sylwedd go iawn allai wneud i chi feddwl neu fyfyrio, felly i mi mae Owl at Home yn orchest o gydasiad symlrwydd a dyfnder. Rwyf wedi codi'r pum stori fach o'r llyfr a'u gludio wrth ei gilydd yn un ffrwd ddi-dor, fel ein bod ni'n gwylio mis lleuad cyfan ym mywyd Owl.

Be rwy'n dotio ato yn ein cynhyrchiad o Owl at Home ydi bod y set, y goleuo a'r dyluniad sain yn eithriadol o hardd ac wedi'u gwneud fel eu bod yn creu ymdeimlad o ryfeddod. Rwy'n dotio at waith i blant (ac oedolion o ran hynny!) sy'n peri'n bod ni'n tynnu ein gwynt yn siarp, ac sydd iddo funudau 'waw!'. Weithiau mae plant yn profi rhywbeth yn y theatr – cân, ennyd, syniad, delwedd – maen nhw'n ei gofio ar hyd eu hoes. Mae hi'n sioe ac iddi lond gwlad o ddirgelwch, harddwch a realaeth hudol ac a fydd, gobeithio, yn cipio'r gynulleidfa i fyd bach rhyfedd a hynod Owl. Mae iddi ei rhesymeg od ei hun, ond hefyd ei munudau swrreal. A minnau'n awdur ac yn gyfieithydd, fuom i'n ddigon lwcus i weithio gyda chwmnïau ac awduron drwy hyd a lled Ewrop, felly gobeithio bod ar y sioe yma a dull ei gwneud flas Ewropeaidd iawn. Rwy'n teimlo'n lwcus mai Theatr Iolo sy'n cynhyrchu'r sioe yma, sy'n deall y weledigaeth yna i'r dim o'r cychwyn cyntaf.


# Nodiadau'r Dylunydd




Ei gartref ydi ei fyd crwn cyfan i Owl. Mae'r byd mawr y tu allan yn codi ofn arno. Gyda threigl y blynyddoedd, daeth y wâl unig, glyd yma, ym mherfedd ceudwll coeden, yn lloches iddo.

Yno y cychwynnodd ein dyluniad. Roedd arnom eisiau creu llecyn clyd ac ymarferol fel ei gilydd, llecyn oedd yn gwt yn gymaint ag yn llofft, yn gegin ac yn gist dŵls – yn hen ond fel pin mewn papur. Llecyn wedi'i lunio'n raddol o drangwls wedi'u hachub o'r goedwig, wedi'i drefnu mor berffaith ganddo fel na does arno ddim angen ei mentro hi i siang-di-fang y byd y tu allan.

Ond, er bod ganddo bopeth mae arno'i angen, roedd arnom awydd gwybod be oedd ei sgwrs olaf â'r gaea, ac wedyn y lleuad, yn eu golygu i'r drefn berffaith yma. Er ei fod i'w weld yn fodlon yn ei gartre, mae yna ryw ysfa yn Owl na welwn mo'i chwalu nes i'r cymeriadau yma roi tro amdano, serch y siang-di-fang ddaw i'w canlyn. Mae adleisiau siapiau crwn yn cyfeirio nid yn unig at gylchoedd yr hen goeden lle mae'n byw, ond at absenoldeb ei ffrind hynaf, y lleuad.



# Rhodd untro...

## Anfonwch neges destun yn cynnwys IOLO a’r swm at 70085 e.e. IOLO 5 er mwyn rhoi £5

Gall eich rhodd helpu i roi i blant bregus a’u hoedolion docynnau am ddim neu noddedig i’n sioeau a/neu brosiectau.Defnyddir yr holl arian roddwch chi i ymorol am gost tocynnau i deuluoedd a phobol ifanc sydd ar hyn o bryd yn methu dod i’n sioeau a’n gweithdai.

TMae’r negeseuon testun yn costio £5 (neu’r swm ddewisoch chi) a phris safonol un neges a thrwy hynny byddwch yn datgan eich bod am gael gwybod rhagor am ein gwaith a chodi arian drwy’r teleffon ac SMS. Os carech roi arian ond heb fod eisiau derbyn negeseuon, sgrifennwch IOLONOINFO 5 (neu eich dewis swm) a’i anfon i 70085.

Byddem wrth ein boddau’n clywed be roeddech chi’n ei feddwl o **Owl at Home!** Gadewch adolygiad i ni ar Facebook neu lenwi un o’n cardiau sylwadau pan fyddwch chi’n gadael.

# Am wybod rhagor ynghylch Theatr Iolo?

Ewch i **theatriolo.com** i weld yr holl newyddion diweddaraf neu ymgofrestru i’n e-newyddlen